Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig 2012/13
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Beth yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sefydliad cenedlaethol newydd a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011. Mae'r Coleg yn chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg trwy weithio mewn partneriaeth â holl brifysgolion Cymru.

Beth yw'r cynllun ysgoloriaethau israddedig a gynigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

Mae Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gynllun newydd sy'n cael ei gyflwyno ym Medi 2011. Prif nod y Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig yw cynnig cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sydd yn astudio cyrsiau sydd eisoes ar gael drwy'r Gymraeg, ond hefyd i gynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd lle nad yw'r ddarpariaeth wedi bod mor helaeth yn y gorffennol. Cynigir dau opsiwn i fyfyrwyr fel a ganlyn:

Prif Ysgoloriaethau – gwerth £3000 dros 3 blynedd am astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg
Ysgoloriaethau Cymhelliant – gwerth £1500 dros 3 blynedd am astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw'r rhestr o gyrsiau cymwys?

Mae'r rhestr o gyrsiau cymwys sydd ar gael ar wefan Mantais wedi ei chytuno gan yr holl sefydliadau perthnasol. Er mwyn gallu derbyn un o'r prif ysgoloriaethau neu'r ysgoloriaethau cymhelliant, mae'n ofynnol i astudio'r nifer angenrheidiol o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn astudio. Mae'r rhestr yn cynnwys yr holl gyrsiau sydd ar gael o fewn y sefydliadau sy'n gymwys i'r cynllun ysgoloriaethau'r Coleg. Yn achos rhai o'r cyrsiau bydd yn ofynnol i chi ddilyn cyfuniadau penodol o fodiwlau er mwyn cwblhau'r nifer angenrheidiol o gredydau drwy'r Gymraeg.

Sut alla i wneud cais am ysgoloriaeth?

Mae'r holl wybodaeth am y broses ymgeisio ar wefan Mantais, sef www.mantais.ac.uk. Gellir cyflwyno ceisiadau electronig neu geisiadau ysgrifenedig ond rhaid cyflwyno'r ceisiadau hyn i'r Coleg, yn unol â'r

cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn hwyr yn cael eu derbyn. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am Brif Ysgoloriaethau'r Coleg yw 15 Ionawr 2012, gyda dyddiad cau ar gyfer yr Ysgoloriaethau Cymhelliant ar 4 Mai 2012.

Sut fydd yr ysgoloriaethau yn cael eu dyfarnu gan y prifysgolion?

Y prifysgolion unigol sydd yn gyfrifol am y broses o ddyfarnu'r ysgoloriaethau. Bydd pob dyfarniad yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau mynediad a bennir gan y brifysgol berthnasol. Ceir gwybodaeth lawn am drefniadau dyfarnu'r sefydliadau unigol o fewn y ddogfen 'Telerau ac Amodau' ar wefan Mantais. Mae'n bosib, mewn rhai achosion, y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais ar wahân, er mwyn sefyll unrhyw arholiadau a drefnir yn y prifysgolion.

Rwy'n fyfyriwr/fyfyrwraig blwyddyn gyntaf yn y brifysgol, ac rwy'n astudio un o'r cyrsiau gradd sy'n ymddangos ar y rhestr cyrsiau cymwys. Ydw i'n cael gwneud cais ar gyfer ysgoloriaeth?

Dim ond darpar-fyfyrwyr (h.y. disgyblion blwyddyn 13, fel arfer) sy'n cael ymgeisio am yr ysgoloriaethau. Nid ydynt yn agored i'r sawl sydd eisoes yn y brifysgol. Mae'r cynllun hefyd yn annog ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sydd am wneud cais i fynd i'r brifysgol.

Beth yw modiwl?

Uned astudio gyflawn yw modiwl o fewn cwrs gradd. Mae gan bob modiwl faes llafur, canlyniadau dysgu a meini prawf asesu. Mae casgliad o fodiwlau yn ffurfio rhaglen radd. Fel arfer, cynigir modiwlau mewn unedau gwerth 10 credyd neu 20 credyd yr un. Golyga modiwl 10 credyd fod y myfyriwr yn treulio oddeutu 100 awr mewn darlithoedd, dosbarthiadau ymarferol, darllen ac astudio ac asesu. Yn nodweddiadol, bydd modiwl 10 credyd yn golygu tua 2 awr o gyswllt yr wythnos ac yn para am un semester.

Beth yw credyd?

Mae pob cwrs gradd, a phob modiwl yn cynnwys nifer penodol o gredydau. Er mwyn sicrhau gradd israddedig rhaid cwblhau o leiaf 360 o gredydau yn llwyddiannus. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys 120 credyd ymhob un o'r tair blynedd arferol ar gyfer cwrs gradd.

Mae'r cwrs gradd yr wyf yn bwriadu ei ddilyn yn cynnwys rhywfaint o fodiwlau cyfrwng Cymraeg, ond nid yw'n ymddangos ar y Rhestr Cyrsiau Cymwys. Ydw i'n gallu gwneud cais am ysgoloriaeth?

Dim ond myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau gradd sy'n ymddangos ar y Rhestr Cyrsiau Cymwys sy'n gallu derbyn nawdd fel rhan o'r Cynllun Ysgoloriaethau. Gellid canfod rhestr o gyrsiau cymwys ar wefan Mantais www.mantais.ac.uk

Faint o arian ychwanegol fydd deiliaid yr ysgoloriaethau yma yn cael?

Bydd deiliaid y Prif Ysgoloriaethau yn derbyn £1000 y flwyddyn am bob blwyddyn maent yn astudio o leiaf 80 credyd yn Gymraeg, tra bydd deiliaid yr Ysgoloriaethau Cymhelliant yn derbyn £500 y flwyddyn am bob blwyddyn maent yn astudio o leiaf 40 credyd yn eu prif bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

A fyddwch chi'n derbyn ceisiadau ar gyfer Cynllun 2012-13 ar ôl y dyddiadau cau?

Mae'n rhaid i bob cais cael ei gyflwyno erbyn y dyddiadau cau, sef 15 Ionawr 2012 ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau a 4 Mai 2012 ar gyfer yr Ysgoloriaethau Cymhelliant.

Sut fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn eu harian?

Bydd yr ysgoloriaethau israddedig yn cael eu cynnig yn uniongyrchol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a bydd yr arian yn cael ei dalu'n syth i gyfrif banc y myfyriwr. Bydd y Coleg yn gofyn i bob ymgeisydd a fydd yn cael cynnig ysgoloriaeth i ddarparu eu manylion banc er mwyn prosesu'r taliadau. Bydd y taliadau yn cael eu cwblhau ym mis Mawrth 2013, yn dilyn cadarnhad gan y brifysgol berthnasol fod y myfyriwr yn parhau i astudio ar gwrs cymwys ac yn dilyn y nifer angenrheidiol o fodiwlau.

Rwyf newydd orffen llenwi fy ffurflen UCAS, ac wedi cynnwys rhai cyrsiau sy'n ymddangos ar y Rhestr Cyrsiau Cymwys arni. Ond rwyf hefyd wedi cynnwys rhai cyrsiau sydd ddim yn gymwys ar y ffurflen. Ydw i'n gallu gwneud cais am ysgoloriaeth?

Mae croeso i bawb sy'n cynnwys o leiaf un cwrs cymwys ar ei ffurflen UCAS wneud cais. Ond, os bydd y cais am ysgoloriaeth yn llwyddiannus, bydd yn rhaid dilyn y cwrs perthnasol (a gwneud y nifer penodol o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg) er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn yr ysgoloriaeth. Os fyddwch chi yn y pen draw yn dewis astudio cwrs nad yw'n gymwys, ni fyddwch chi yn derbyn yr ysgoloriaeth.

Rwyf wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant yn y Gyfraith, ond rwyf bellach wedi penderfynu astudio cwrs gradd gyfun, a fydd yn galluogi i mi astudio ail bwnc - sef Cymraeg - ochr yn ochr â'r Gyfraith. Wedi edrych ar ba fodiwlau sy'n cael eu cynnig yn ystod blwyddyn gyntaf fy nghwrs, rwyf wedi penderfynu peidio dewis y modiwlau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan adran y Gyfraith (gan nad ydynt yn apelio ataf), ond byddaf yn astudio o leiaf 40 credyd o fodiwlau cyfrwng Cymraeg gyda'r adran Gymraeg beth bynnag. A fyddai'n gallu derbyn fy Ysgoloriaeth Cymhelliant drwy wneud hyn?

Bydd rhaid astudio o leiaf 40 credyd cyfrwng Cymraeg ym mhwnc yr Ysgoloriaeth Cymhelliant, felly os mai Ysgoloriaeth Cymhelliant yn y Gyfraith sydd wedi ei nodi ar y ffurflen gais, bydd rhaid astudio o leiaf 40 credyd cyfrwng Cymraeg y flwyddyn yn y Gyfraith er mwyn derbyn y nawdd.

Rwyf wedi cael fy enwebu am ysgoloriaeth ond yn awyddus i astudio mewn prifysgol arall, a fydd fodd i mi drosglwyddo'r ysgoloriaeth i sefydliad arall?

Ni fydd modd i ddeiliaid ysgoloriaethau drosglwyddo ysgoloriaeth i unrhyw sefydliad arall gan fod nifer penodedig o ysgoloriaethau wedi eu dyrannu i'r prifysgolion unigol ac mae pob dyfarniad yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau mynediad a bennir gan y brifysgol berthnasol.

Beth fydd yn digwydd os na fydda' i'n llwyddo i astudio digon o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. naill ai 80 neu 40 credyd) yn ystod un o flynyddoedd fy nghwrs?

Ni fydd modd derbyn arian ysgoloriaeth ar gyfer unrhyw flwyddyn lle na fydd y myfyriwr/myfyrwraig wedi cwblhau digon o gredydau cyfrwng Cymraeg. Fe fydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am y modiwlau y bydd deiliaid ysgoloriaethau yn eu dilyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amodau.

Rwy'n poeni am safon fy Nghymraeg. Oes rhaid i mi gyflwyno fy ngwaith yn Gymraeg?

Mae disgwyl i ddeiliaid ysgoloriaeth gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg, ond mae cefnogaeth ieithyddol ar gael trwy'r gwahanol brifysgolion, felly fe fydd staff ar gael i helpu.

Mae gennyf ddiddordeb mewn gwneud cais am ysgoloriaeth, ond hoffwn gael ychydig mwy o wybodaeth cyn mynd ati i wneud hynny. Sut alla i gael manylion pellach?

Os ydych am gael mwy o fanylion am gwrs penodol, dylech gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Adran / Brifysgol sy'n gyfrifol am ddarparu'r cwrs hwnnw. Os hoffech fwy o wybodaeth am elfen o'r Cynllun Ysgoloriaethau, cysylltwch gyda'r Coleg trwy e-bostio gwybodaeth@mantais.ac.uk